



# CYNLLUN STRATEGOL

2024-2029



Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol sydd â ffocws ar ddysgu gydol oes a gwell gwaith.

**Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial.**

Rydym yn ymchwilio'r hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer.

## Ein blaenoriaethau

### Nodau 2040

### Ein ffocs 2024-2029

## Dysgu gydol oes

Mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu, gan gyflawni hyn drwy ostwng anghydraddoldeb rhwng grwpiau ac ardaloedd yn sylweddol

- Eirioli dros addysg oedolion
- Deall patrymau o gyfranogiad mewn dysgu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb parhaus
- Cyflwyno'r achos dros hawl ehangach i ddysgu gydol oes i gefnogi gyrfaeodd, ailhyfforddi a llesiant

## Sgiliau hanfodol

Mae gan bawb y sgiliau a'r galluedd hanfodol fel llythrennedd, rhifedd a digidol maent eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith

- Cyflwyno'r achos economaidd, cymdeithasol a busnes dros sgiliau hanfodol, fel eu bod yn brif flaenoriaeth i bobl, cyflogwyr a gwneuthurwyr polisi
- Adeiladu ar y sylfaen tystiolaeth ar ennyn diddordeb pobl mewn sgiliau hanfodol a darparu'r sgiliau hynny

## Cyflogaeth

Y Deyrnas Unedig â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yn y G7, gyda 80% o oedolion oedran gwaith mewn gwaith, gan gyflawni hynny drwy gau'r bylchau cyflogaeth rhwng grwpiau ac ardaloedd

- Dadlau am fwy o gymorth i'r grwpiau sy'n colli allan ar hyn o bryd
- Profi rhannu'r hyn sy'n gweithio wrth helpu gwahanol grwpiau o bobl i waith
- Ymchwilio sut y gall gwaith, sgiliau a gwasanaethau iechyd gydweitho i gefnogi pobl i waith

## Gwell gwaith

Mwy o bobl mewn gwaith sy'n diwallu eu hanghenion, gan gefnogi llesiant, datblygiad a safonau byw da

- Adeiladu'r sylfaen tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i helpu pobl sicrhau cynnydd yn y gwaith
- Deall sut i gynyddu buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau lle mae ar ei isaf
- Hyrwyddo mynediad teg i brentisiaethau ac addysg dechnegol

**Cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd**

## Yr hyn a wnawn



Ymchwil a dadansoddiad



Gwerthuso



Polisi



Datblygu



Digwyddiadau



Ymgyrchoedd



Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial.



**Mae dysgu gydol oes a gwaith sy'n diwallu anghenion pobl yn ganolog wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd y dyfodol ar gyfer pobl, cyflogwyr a chymunedau.**

Gall gwell gwaith a chynyddu sgiliau helpu i sbarduno cynhyrchiant a chodi safonau byw ar ôl degawd o ddiffyg twf. Gall dysgu gydol oes helpu i wella iechyd a llesiant, gan alluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar fywydau hirach a llacio pwysau poblogaeth sy'n heneiddio ar y gwasanaethau iechyd. Bydd newidiadau i'n heconomi, fel y symud i sero net, yn creu swyddi newydd, mynnu sgiliau newydd a'i gwneud yn ofynnol i fwy o bobl newid gyrfaoedd. Gall mynediad tecach i ddysgu a gwaith da helpu i wella symudedd cymdeithasol, fel bod pawb yn cael y cyfle gorau mewn bywyd.



**Ond mae mynediad i ddysgu a gwaith heddiw yn anghyfartal.** Mae pobl hŷn a'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu. Mae gan un mewn pump oedolyn lythrennedd neu rifedd isel. Mae cyfraddau cyflogaeth yn llawer is ar gyfer rhai grwpiau, fel pobl anabl. Mae gormod o bobl wedi'u dal mewn gwaith cyflog isel neu ansicr nad yw'n diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn rhannol yn ganlyniad tanbriso a thanfuddsoddi mewn dysgu a gwaith dros dymor hir.

**Mae angen i hyn newid.** Mae'n rhaid i ddysgu gydol oes a gwell gwaith fod yn flociau adeiladu creiddiol i gymdeithas teg a llewyrchus.

# Byddai ein gweledigaeth yn golygu erbyn 2040 bod



**Mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu, gan gyflawni hyn drwy ostwng anghydraddoldeb rhwng grwpiau ac ardaloedd yn sylweddol.**

Mesurir gan Arolwg y Sefydliad Dysgu a Gwaith ar Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu ac arolygon eraill ar addysg oedolion.



**Mae gan bawb y sgiliau a'r galluedd hanfodol fel llythrennedd, rhifedd a digidol maent eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith.**

Byddwn yn mesur hyn drwy arolygon rhyngwladol fel PIAAC a data ar gyfranogiad mewn dysgu sgiliau hanfodol ymhlith cenhedloedd y Deyrnas Unedig.



**Y Deyrnas Unedig â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yn y G7, gyda 80% o oedolion oedran gwaith mewn gwaith, gan gyflawni hynny drwy gau'r bylchau cyflogaeth rhwng grwpiau ac ardaloedd.**

Byddwn yn mesur hyn drwy gyfradd cyflogaeth yr Arolwg Gweithlu.



**Mwy o bobl mewn gwaith sy'n diwallu eu hanghenion, gan gefnogi llesiant, datblygiad a safonau byw da.**

Byddwn yn mesur hyn drwy fasged o fesurau yn cynnwys y gyfran o bobl: sy'n cael tâl is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol; a hoffai weithio oriau gwahanol; a chael hyfforddiant yn y gwaith.



## Sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol sydd â ffocws ar ddysgu gydol oes a gwell gwaith.

Rydym yn ymchwilio'r hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer.

Mae cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd yn greiddiol i bopeth a wnawn wrth i ni weithio tuag at gymdeithas deg a llewyrchus.

# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2029

## Dysgu gydol oes

**Mae dysgu yn dda ar gyfer gyrfaoedd, iechyd a llesiant, ymgysylltu dinesig a llawer mwy. Ond er fod pobl yn gynyddol yn cymryd rhan yn annibynnol mewn dysgu, bu dirywiad mewn cyfleoedd mwy ffurfiol ar gyfer oedolion i ddysgu. Mae rhai grwpiau – tebyg i bobl hŷn, y rhai allan o waith a'r rhai gyda lefelau is o gymwysterau – yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu nag eraill.**

Bydd dysgu gydol oes yn cynyddu ymhellach mewn pwysigrwydd gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, bywydau gwaith hirach, yr angen i newid gyrfa, ac i gefnogi cysylltiadau ac integreiddio cymunedol. Ond gall cyfranogiad gael ei lesteirio gan: agweddau at ddysgu, yn cynnwys os yw pobl yn credu y bydd o fudd iddynt; cost ac argaeledd, gyda thoriadau mewn cyllid cyhoeddus yn cyfyngu cyfleoedd (yn cynnwys gostyngiad o 20% mewn gwir dermau yn Lloegr ers 2010); ac amser, yn cynnwys ffitio dysgu o amgylch gwaith a bywyd cartref.

### Rydym eisiau newid hyn drwy:

- eirioli dros addysg oedolion drwy ymgyrchoedd fel yr Wyl Dysgu a'r Wythnos Addysg Oedolion;
- rhoi sylw i'r rhesymau pam fod oedolion yn cymryd rhan neu ddim yn cymryd rhan mewn dysgu i lywio polisi ac ymarfer;
- a dadlau dros hawliau ehangach i ddysgu gydol oes, yn cynnwys gwell cymorth ar gyfer ailhyfforddi a rhoi amser ar gyfer dysgu.

Byddwn yn mesur llwyddiant drwy: cyfranogiad mewn dysgu yn ôl nodweddion demograffig ac ardal; cefnogaeth i'n gofynion polisi; ac ymgysylltu gyda'n hymgyrchoedd addysg oedolion.



# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2029

## Sgiliau hanfodol

Mae gan un mewn pump oedolyn lythrennedd neu rifedd isel, ac mae galluoedd craidd tebyg i'r rhain a llythrennedd iechyd ac ariannol a dinasyddiaeth wedi eu dosbarthu'n anghyfartal rhwng grwpiau demograffig. Mae hyn yn llesteirio cyfleoedd bywyd pobl ac mae'n uwch nag mewn llawer o wledydd cymaradwy.

Mae'r sgiliau hyn yn sylfaenol i fywyd a gwaith, ond ar y tueddiadau cyfredol byddai'n cymryd 20+ mlynedd i bawb a fedrai gael budd o ddysgu sgiliau hanfodol i gymryd rhan. Gall y galw gael ei llesteirio gan agweddau cymdeithas a phrofiadau dysgu blaenorol; tanbriso'r buddion i fywyd a gwaith; a diffyg cyllid, polisi a ffocws cyflogwyr ar y galluoedd craidd hyn.

### Rydym eisiau newid hyn drwy:

- codi ymwybyddiaeth o'r anghenion sgiliau hanfodol ac effeithiau drwy straeon oedolion sy'n ddysgwyr a chyflwyno'r achos busnes ac economaidd dros roi blaenoriaeth i'r maes hwn;
- adeiladu a lledaenu'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer ennyn diddordeb oedolion mewn dysgu sgiliau hanfodol;
- a phrofi ein Cwricwlwm Dinasyddion ymhellach fel ffordd newydd o gyflwyno sgiliau a galluoedd hanfodol.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant drwy: cefnogaeth i'n nodau polisi; cynyddu cyfranogiad mewn darpariaeth sgiliau hanfodol; a chefnogaeth i wersi ein gwaith yn ymarferol.



# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2029

## Cyflogaeth

Mae cyfradd cyflogaeth y Deyrnas Unedig yn gymharol uchel yn ôl safonau rhyngwladol, ond mae ymhell o fod y gorau yn y byd yn neilltuol fod gan rhai grwpiau, tebyg i bobl anabl ac ardaloedd o'r wlad gyfraddau cyflogaeth llawer is na'r cyfartaledd. Byddai cyfradd cyflogaeth o 80% yr uchaf yn y G7 ac yn gydnaws gydag arfer gorau rhyngwladol. Byddai'n dod â buddion economaidd, gwella cyllid cyhoeddus a hybu safonau byw a chyfleoedd bywyd. Dim ond drwy gau bylchau rhwng grwpiau ac ardaloedd y gellid ei gyflawni.

Caiiff cyflogaeth ei lesteirio gan: mynediad cyfyngedig i gymorth (dim ond 1 mewn 10 o bobl anabl allan o waith sy'n derbyn cymorth cyflogaeth bob blwyddyn); diffyg cydlynw rhwng gwasanaethau gwaith, iechyd a sgiliau; seilwaith cymdeithasol annigonol tebyg i ofal plant a chludiant; y system budd-daliadau, yn cynnwys cymhellion a gofynion gwaith; yr angen am fwy o dystiolaeth ar beth sy'n gweithio i rai grwpiau; gwahaniaethau mewn marchnadoedd llafur lleol; a faint o ran mae cyflogwyr yn ei gymryd mewn dylunio swyddi cynhwysol a phrosesau recriwtio.

### Rydym eisiau newid hyn drwy:

- cyflwyno'r achos dros ehangu cymorth i ganfod gwaith addas ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael budd ar hyn o bryd, yn arbennig bobl anabl;
- gwella cymorth cyflogaeth drwy werthuso rhaglenni, lledaenu tystiolaeth a dynodi syniadau newydd i'w treialu;
- a chanolbwyntio ar sut y gall gwaith, sgiliau a gwasanaethau iechyd gydweithio'n well i gefnogi mwy o bobl i waith.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant drwy: cefnogaeth i argymhellion polisi ac ymarfer; cymorth cyflogaeth yn cyrraedd mwy o bobl o grwpiau nad ydynt yn cael budd heddiw; a chymryd rhan yn ein gweithgareddau cynnull a chyfathrebu.



# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2029



## Gwell gwaith

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon gyda'u gwaith ac mae ystod hyblyg o gyfleoedd cyflogaeth yn rhoi mwy o gyfle i bobl ganfod gwaith sy'n gweddu iddynt. Ond byddai'n well gan rai pobl gael gwaith mwy diogel ond maent yn methu dod o hyd i hynny, gall canfod hyblygrwydd fod yn stryd un-ffordd o blaid cyflogwyr. Ymhellach, er cynnydd yn yr isafswm cyflog mae llawer o bobl sy'n canfod eu hunain yn methu symud o waith cyflog isel yn aml yn gysylltiedig â chefnidir economaidd-gymdeithasol.

Mae'r rhesymau pam fod gormod o bobl yn methu symud ymlaen o waith ansicr neu gyflog isel yn cynnwys: gall pŵer cyfyngedig gweithwyr wneud hyblygrwydd yn stryd un ffordd; buddsoddiad isel ac anghyfartal gan gyflogwyr mewn hyfforddiant, yn gysylltiedig gyda modelau busnes cynhyrchiant isel a throsiant staff uchel; hawliau cyflogaeth annigonol mewn rhai meysydd a diffyg cynnydd mewn gwella arferion gwael gan gyflogwyr lle maent yn bodoli; a ffocws cyfyngedig mewn polisi cyhoeddus ar helpu pobl i sicrhau cynnydd yn y gwaith, gyda thystiolaeth annigonol ar yr hyn sy'n gweithio.

### Rydym eisiau newid hyn drwy:

- adeiladu a lledaenu'r dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio drwy gynorthwyo cynnydd yn y gwaith;
- ystyried sut i hyrwyddo gweithleoedd iach a chynhwysol a gwell gwaith;
- adeiladu dadansoddiad a thystiolaeth i ddeall buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant yn well a sut i'w gynyddu;
- ac ymchwilio sut i ledaenu mynediad i addysg dechnegol a phrentisiaethau ansawdd uchel.

Byddwn yn mesur llwyddiant drwy: cefnogaeth i argymhellion polisi; datblygu a lledaenu arfer da; cynyddu buddsoddiad, a buddsoddiad mwy cyfartal, gan gyflogwyr mewn hyfforddiant.



## Ein gwerthoedd



### Uchelgais

Y llais blaenllaw a mwyaf grymus dros ddysgu gydol oes a gwell gwaith.



### Arbenigedd

Defnyddio syniadau seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau newid byd go iawn mewn dysgu, sgiliau a chyflogaeth.



### Annibyniaeth

Ymroddiad diwyro i fod â meddwl agored a bod yn onest a theg.



### Cydweithio

Rhoi partneriaeth a rhwydweithio wrth galon yr hyn a wnawn.

## Sut y gweithiwn

Mae ein gwaith yn cynnwys cyfuniad o: ymchwil a dadansoddiad; gwerthuso; polisi; datblygu; digwyddiadau; ac ymgyrchoedd. Anelwn uchafu ein heffaith a'n cyrraedd drwy ansawdd ein gwaith a thrwy weithio mewn partneriaeth, wedi ei seilio ar:

**Ymroddiad sylfaenol i gydraddoldeb ac amrywiaeth:** Ceisiwn ddeall, herio a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn mynediad i a chyflawniad mewn dysgu a gwaith.

**Arweinyddiaeth gref:** Mae ein Hymddiriedolwyr a'n tîm uwch angen ystod eang o sgiliau a phrofiad, yn ogystal ag adlewyrchu amrywiaeth y lleisiau mae ein gwaith yn ei gwmpasu.

**Tîm proffesiynol a medrus:** Rydym angen tîm cryf sy'n ffynnu gyda gwybodaeth, hygrededd a pherthnasoedd ar draws ein holl flaenoriaethau.

**Partneriaeth:** Adeiladwn berthynas gref gydag ystod eang o gefnogwyr a phartneriaid, yn cynnwys gweithio gyda rhwydweithiau rhyngwladol, i fod yn sail i'n gwaith.

**Ymgyfraniad:** Ceisiwn sicrhau fod y rhai y mae ein gwaith yn ceisio bod o fudd iddynt yn ymwneud â'n gwaith, gan uchafu lleisiau profiad bywyd.

**Cyllid sicr ac amrywiol:** Rydym yn glir am y gwaith rydym eisiau ei wneud ac anelwn weithio gydag ystod eang o gyllidwyr a phartneriaid.

**Mesur clir ar effaith:** Adeiladwn fesuriadau clir o'r effaith yr ydym eisiau ei gyflawni i'n gwaith, gan anelu i uchafu ei effaith drwyddi draw.

**D&G** SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH  
LEARNING AND WORK INSTITUTE

**L&W**

[sefydliaddysguagwaith.cymru](http://sefydliaddysguagwaith.cymru)

[enquiries@learningandwork.org.uk](mailto:enquiries@learningandwork.org.uk)

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol.  
Unit 1.23, St Martins House, 7 Peacock Lane, Leicester LE1 5PZ  
Rhif cofrestru cwmni. 2603322 | Rhif cofrestru elusen. 1002775

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu, copïo na throsglwyddo'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, ac eithrio yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu o dan delerau unrhyw drwydded sy'n caniatáu copïo cyfyngedig a gyhoeddwyd gan yr Hawlfraint Asiantaeth Drwyddedu.